



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

200
1822 - 2022



**CREU
ARLOESI
YSBRYDOLI**

CANLLAW ISRADDEDIG
Y DRINDOD DEWI SANT 21&22





**Gallwch archebu
prospectws
israddedig
personol yma!**

[ydds.ac.uk/cy/
prospectws](https://ydds.ac.uk/cy/prospectws)



Croeso

CYNNWYS

- 4 DATHLWCH GYDA NI!
- 6 DIWRNODAU AGORED
- 8 LLEOLIAD
- 10 DEWCH I ASTUDIO GYDA NI
- 16 EICH PROFYAD DYSGU
- 20 EIN PRIFYSGOL
Abertawe
Caerfyrddin
Llambed
Caerdydd
Llundain a Birmingham
- 34 LLETY
- 38 LLES a CHYMORTH
- 44 UNDEB MYFYRWYR
- 46 CYMRU RYFEDDOL
- 50 YSGOLORIAETHAU
A BWRSAÏAU
- 52 CANLLAW CWRS ac A-Z
- 80 SUT I WNEUD CAIS
Gofynion Mynediad
Y Broses Gynnig
Rhyngwladol
TAR ac Ôl-Raddedig
- 92 CYSYLLTWCH Â NI

MAN CYCHWYN ADDYSG UWCH YNG NGHYMRU

**MAE'R BRIFYSGOL
YN EDRYCH YMLAEN
AT DDATHLU 200
MLYNEDD O ADDYSG
UWCH YNG NGHYMRU
YN 2022 A'I RÔL
WRTH SIAPIO CENEDL.**

Bydd dathliadau'r deucanmlwyddiant yn coffáu sefydlu Coleg Dewi Sant, Llambled, yn 1822 ac yn nodi mai dyna oedd man geni addysg uwch yng Nghymru. Siarter Frenhinol 1828 y Brifysgol yw'r hynaf yng Nghymru a Lloegr ar ôl prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt.

Bydd dathliadau'r deucanmlwyddiant yn rhoi'r cyfle i ni ddathlu llwyddiannau a

chyraeddiadau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a'i sefydliadau sylfaenu dros y ddwy ganrif ddiwethaf. Mae ein presenoldeb yn Llambled, Caerfyrddin, Abertawe a Chaerdydd yn caniatáu i ni gael effaith sylweddol ar ein cymunedau yng Nghymru a thu hwnt.


Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn ein hanes a'n cyswllt ag ef, yn arbennig gan ei fod wedi rhoi i ni'r penderfyniad a'r hyder i siapio ein dyfodol ein hunain am genedlaethau i ddod.

Bydd 2022 yn rhoi cyfle i ni ddathlu cyflawniadau ein staff, myfyrwyr a graddedigion trwy'r Celfyddydau, Addysg, Dyniaethau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Ymunwch â ni a rhannwch yn y dathlu!

200

1822 - 2022



DEWCH I YMWELD Â NI MEWN

DIWRNOD AGORED

**A MWYNHAU DYSGU RHAGOR
AM BRIFYSGOL CYMRU
Y DRINDOD DEWI SANT**

Dewch draw i'n gweld ni!

Dysgwch ragor am eich cwrs. Cewch gwrdd â staff. Ewch ar daith o gwmpas y campws. Cewch gyngor ar wneud cais. Dewch i ddarganfod y gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr. Gofynnwch gwestiynau am gyllid, llety, bywyd campws a llawer iawn rhagor.

Cewch brofi croeso Cymreig yn ein prif gampysau yn Abertawe, Caerfyrddin, Llambled a chanolfannau dysgu yng Nghaerdydd. Mae digonedd o leoedd gwych i ymweld â nhw a phethau i'w gwneud gerllaw, felly ewch am ddiwrnod, neu benwythnos, i'w mwynhau.

Os hoffech wybod rhagor am gampws Llundain neu ganolfan ddysgu Birmingham, bydd ein hymgynghorwyr yn hapus i'ch helpu.

Ceir y manylion cyswllt ar ein gwefan:
www.ydds.ac.uk/cy/lleoliad

**Yn ystod y pandemig Covid-19 mae'r Drindod Dewi Sant wedi bod yn cynnig diwrnodau agored rithwir ar-lein gan fod diogelwch ein myfyrwyr, staff ac ymwelwyr ar y campws yn bwysig i ni. Rydym yn gobeithio croesawu ymwelwyr diwrnodau agored nôl i'n campysau cyn gynted â phosibl. Gweler ein gwefan am yr wybodaeth ddiweddaraf.*



**DYSGWCH
RAGOR**

[www.ydds.ac.uk/
cy/ymweld*](http://www.ydds.ac.uk/cy/ymweld*)

NGH

-  LLAMBED
-  CAERFYRDDIN
-  ABERTAWA
-  Caerdydd
-  Birmingham
-  Llundain

MAE EIN GWREIDDAU YNG...



YMMIRU

...ac rydym yn ymestyn ein canghennau

Mae gan Y Drindod Dewi Sant dri phrif gampws yn ne-orllewin Cymru – Caerfyrddin, Llambled ac Abertawe - yn ogystal â champysau yn Llundain a chanolfannau dysgu yng Nghaerdydd a Birmingham.

Gan gynnig profiad dysgu gwirioneddol fyd-eang, rydym yn croesawu myfyrwyr rhyngwladol i'n campysau a'n canolfannau dysgu yn y DU, ac mae cyfleoedd

i fyfyrwyr astudio dramor. Rydym hefyd yn cynnig rhaglenni astudio a ddarperir trwy bartneriaethau cydweithredol gyda sefydliadau eraill yn y DU a thramor.

**DYSGWCH
RAGOR**

[www.ydds.ac.uk/
cy/lleoliad](http://www.ydds.ac.uk/cy/lleoliad)



DEWCH I ASTUDIO GYDA NI

**Adeiladwch eich dyfodol wrth i
chi ymestyn eich gwymbodaeth.**

Mae bod yn barod i wneud gwahaniaeth yn y byd yn golygu mwy na chyflawni gradd dda. Yn Y Drindod Dewi Sant, rydym yn cydnabod y bydd arnoch angen addysg gyflawn.

Rydym yn cynnig cyrsiau creadigol, addysgu arloesol a lleoliadau dysgu ysbrydoledig. Mae llawer mwy o resymau i ddewis Y Drindod Dewi Sant. Dyma rai ohonynt...

01

INSPIRE: Paratowch am ddyfodol cynaliadwy

Mae eich lles chi a lles cenedlaethau'r dyfodol wrth wraidd yr hyn a wnawn. Mae ystyried effaith gweithrediadau'r oes sydd ohoni yn rhoi ichi'r gallu i wneud gwell penderfyniadau cynaliadwy hir dymor.

Trwy'r Sefydliad Arfer Cynaliadwy, Arloesi ac Effeithiolrwydd Adnoddau (INSPIRE), ein nod yw gwneud gwahaniaeth. Datblygwch eich gwybodaeth am gynaliadwyedd drwy ystod o ddigwyddiadau, gwnewch gais am interniaeth Inspire a chymerwch ran yn ein rhaglen dystysgrif.

02

Rhowch wybod i ni beth sydd ei angen arnoch

Fe gewch lawer o gyfleoedd i leisio'ch barn, cymryd rhan ac annog newidiadau a fydd er eich lles chi a'ch cyd-fyfyrwyr. Er enghraifft, cafodd ein Hybiau Myfyrrwyr newydd eu datblygu mewn ymateb i adborth gan fyfyrwyr ac maent yn dod ag ystod o wasanaethau at ei gilydd i ddarparu 'siop un stop' i ymdrin ag ymholiadau a phroblemau.

03

Byddwch yn ddewr ac ewch amdani

Rydym yma i'ch helpu i wireddu eich breuddwydion. Mae'r Drindod Dewi Sant ar reng flaen addysg fenter. Gallwch hybu eich sgiliau entrepreneuraidd trwy ddigwyddiadau 'Pizza with a Pro'. Dewch atom ni i ddysgu gan siaradwyr gwadd ysbrydoledig, neu cymerwch ran yn y gystadleuaeth Ras i'r Farchnad.

Mae'r Swigen Greadigol yn siop a rhwydwaith sy'n cefnogi gweithgareddau a arweinir gan ein myfyrwr. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys siopau dros dro, arddangosfeydd, perfformiadau, digwyddiadau codi arian, rhwydweithio a chyfarfodydd. Yno, gallwch fynychu gweithdai eiddo deallusol a chreadigrwydd, digwyddiadau Wythnos Arloesi a gweithdai ar sut i ddechrau busnes.






04

Cyfathrebwch mewn mwy nag un iaith

Mae gennym gyrsiau, ysgoloriaethau a bwrsariau cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd i ddysgu'r iaith yn ogystal â chymdeithasau a digwyddiadau cymdeithasol Cymraeg. Ewch i: ydds.ac.uk/cy/coleg-cymraeg



05

Dyluniwch eich Bywyd

Archwiliwch a chrëwch yrfa a ffordd o fyw sy'n gweddu i chi trwy ein rhaglen Dylunio Bywyd pedwar cam. Os ydych chi'n astudio ar ein campysau yng Nghymru, byddwn yn cynnig sesiwn Dylunio Bywyd yn rhan o'ch astudiaethau yn y flwyddyn gyntaf a chaiff hwn ei roi ar waith fesul cam ar bob safle cyn bo hir. Gallwch hefyd gyrchu holl adnoddau Dylunio Bywyd drwy ddefnyddio'r Hwb Dylunio Bywyd. Ewch i: students.ydds.ac.uk/life-design





06 Astudio Dramor

Mae llawer o'n cyrsiau yn cynnig cyfle i fyfyrwyr y DU dreulio semester dramor yn rhan o'u hastudiaethau a chael y gorau o'r ddau fyd: gartref a thramor. Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth ar gyfleoedd rhyngwladol i fyfyrwyr Y Drindod Dewi Sant.



07 #OAstudiaethiGyflogaeth

Caiff sgiliau cyflogadwyedd eu cynnwys yn ein cyrsiau i helpu ein myfyrwyr i baratoi at fywyd ar ôl y brifysgol.

- Mae cyflogwyr ac arbenigwyr menter yn ymweld â'r brifysgol.
- Cynigir Interniaeth i fyfyrwyr a chyfleoedd i wneud profiad gwaith.

Mae ein gwasanaeth gyrfaoedd yno i helpu o'r diwrnod cyntaf un ac ar ôl i chi raddio. Ewch i: www.ydds.ac.uk/cy/gyrfaoedd



**Ewch i Fwyd
Myfyrwyr am ragor
o wybodaeth:**

[www.ydds.ac.uk/cy/
bywyd-myfyrwyr](http://www.ydds.ac.uk/cy/bywyd-myfyrwyr)

1af yng Nghymru

AM EI CHYMUNED
DDYSGU

*Arolwg Cenedlaethol
Myfyrwyr 2018*



Graddedigion
Cyflogadwy:

ROEDD

94%

O RADDEDIGION Y
DRINDOD DEWI SANT
MEWN GWAITH a/neu
ASTUDIAETHAU PELLACH



15

MIS AR ÔL IDDYNT
GWBLHAU EU
HASTUDIAETHAU.



CAFODD 60% O
WAITH YMCHWIL
Y BRIFYSGOL EI
FARNU'N EITHRIADOL
(23.3%) NEU'N
SYLWEDDOL
IAWN (36.7%) O
RAN EI EFFAITH A'I
ARWYDDOCÂD.

*Cyrchfannau Ymadawyr
Addysg Uwch 2017/18*

*Fframwaith Rhagoriaeth
Ymchwil 2014*

WHATUNI?
STUDENT
CHOICE
Awards
2020

ENILLYDD
CYRSIAU A DARLITHWYR

Myfyrwyr sydd wrth wraidd popeth a wnawn ni yn YDDS. Ni oedd yn gyntaf am gysiau a darlithwyr yng ngwobrau Whatuni Student Choice 2019 a 2020 – gwobr sydd wedi'i seilio ar bleidleisiau myfyrwyr.

FfRhA Arian

CAFODD Y
DRINDOD
DEWI SANT
WOBR FfRhA
ARIAN YM MIS
MEHEFIN 2019.

*Fframwaith Rhagoriaeth
Addysgu (FfRhA) 2019*

= **2ail**
yn y **DU**

AM FODDHAD AR YR ADBORTH

Guardian League Table 2021

Bydd myfyrwyr yn ymgysylltu â'u pynciau:
PROFIAD ACADEMAIDD ARDDERCHOG

= **7fed**
yn y **DU**

AM FODDHAD MYFYRWYR
GYDAG ANSAWDD
YR ADDYSGU

*The Times and The Sunday Times
Good University Guide 2021*

= **6ed**
yn y **DU**

am staff parod eu
cymwynas/ymroddedig

*The Times Higher Education
Student Experience
Survey 2018*

PRIFYSGOL ENTREPRENEURAIDD

Cydnabyddir mai'r Drindod Dewi Sant yw un o sefydliadau penna'r byd am addysg entrepreneuriaid seiliedig ar greadigrwydd ac mae hi wedi bod yn arwain ymdrechion rhyngwladol i ddod o hyd i ffyrdd newydd i baratoi myfyrwyr ar gyfer amgylchedd gwaith yr 21ain ganrif.



EICH

PROFIAD DYSGU



Myfyrwyr sydd wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn ymrwmo i roi ein myfyrwyr yng nghanol ein cenhadaeth.

Gwnawn hyn drwy...

- ddarparu cwricwlwm dwyieithog perthnasol ac ysbrydoledig
- cynnig amgylchedd dysgu cefnogol
- buddsoddi yn ein campysau a chyfleusterau
- sicrhau bod myfyrwyr, o bob cefndir, yn cael y cyfle i gyrraedd eu potensial.

Ein nod yw datblygu gradddedigion ac ymarferwyr adfyfyriol sy'n gallu gwneud gwahaniaeth i gymdeithas, gan alluogi gradddedigion Y Drindod Dewi Sant i ddatblygu'r wybodaeth, sgiliau a rhinweddau iawn i gymryd eu lle, ble bynnag y byddant yn y dyfodol.




“

Rwyf wedi cael cymaint o gyfleoedd yn ystod fy amser yn Y Drindod, ac rwyf wedi manteisio ar y rhan fwyaf o'r rhain. Maent wedi agor fy llygaid i'r hyn sy'n bosibl ac wedi fy ngalluogi i ddatblygu, yn ogystal ag arfer, sgiliau therapi chwaraeon.

Tesni Fakes

BSc (Anrh) Therapi Chwaraeon

”




WHATUNI?
STUDENT
CHOICE
Awards
2019

10 UCHAF
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN

4ydd yn y DU
YNG NGHATEGORI PRIFYSGOL Y FLWYDDYN

Gwobrau Student Choice Whatuni 2020



EIN PRIFYSGOL

3

**PHRIF
LEOLIAD**

ABERTAWE, CAERFYRDDIN
a LLAMBED

5



LLYFRGELL

10,280

O FYFYRWYR

HESA 2017/18



3

ATHROFA

BUSNES AC IECHYD

ADDYSG A'R DYNIAETHAU

GWYDDONIAETH A CHELF

300+

**O GYRSIAU
ISRADDIG**



ABERTAWE



Y Drindod Dewi Sant Abertawe - yng nghalon y ddinas.

Mae gan gampysau Abertawe enw da am raglenni arloesol sy'n ymwneud â diwydiant ac sy'n canolbwyntio ar yrfaeodd. Wedi'i sylfaenu yn 1853, mae campws Abertawe wedi'i ledaenu ar draws nifer o ganolfannau pwrpasol – pob un o fewn cyrraedd rhwydd i ganol y ddinas. Mae ein myfyrwyr yn astudio yn rhai o adeiladau hanesyddol harddaf y ddinas yn ogystal â rhai mwyaf modern ac arloesol eu golwg.

Wedi'i lleoli'n gyfleus yng nghanol y ddinas, cewch rwydd hynt o'r Drindod Dewi Sant i siopau, adloniant, chwaraeon a diwylliant a bywyd nos, yn ogystal â thraeth bendedig ac arfordir hyfryd Gŵyr ychydig filltiroedd i fyny'r ffordd.



Mae gan bob maes
pwnc ei gyfleusterau
ei hun gyda mynediad
at offer arbenigol,
adnoddau dysgu,
gweithdai ac
ystafelloedd TG.




SA1 GLANNAU ABERTAWÉ

Mae ein hadeiladau newydd, gwerth £350m, yn rhan o leoliad newydd a chyffrous yn natblygiad SA1 Glannau Abertawe. Yno, darperir cyfuniad arloesol o addysg a menter mewn rhan fodern o'r ddinas lle ceir morglawdd a phont hwyl, pensaernïaeth ddeniadol, caffis, bwytai a bariau cŵl.

Mae cartref newydd ein cyrsiau Pensaernïaeth, Amgylcheddau Adeiledig a Naturiol, Cyfrifiadura, Peirianeg, Addysg, Cwnsela a Seicoleg wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Dinas a Sir Abertawe a busnes a diwydiant, i hybu cyflogadwyedd graddedigion a thrawsnewid yr amgylchedd dysgu ar gyfer ein myfyrwyr.



COLEG CELF ABERTAWÉ



Mae adeiladau campysau Dinefwr a Heol Alexandra yn gartref i Goleg Celf Abertawe, ac yma cynigir amrywiaeth eang o gyrsiau celf a dylunio sydd wedi ennill gwobrau. Mae Campws Busnes Abertawe yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr brofi ymagweddau arloesol at ddysgu, wedi'u cyflwyno gan weithwyr proffesiynol ac academyddion sydd â phrofiad o ddiwydiant.

CAERFYRDDIN



Mae campws Caerfyrddin yn amgylchedd bywiog a chyfeillgar sy'n amgylchynu adeilad gwreiddiol 1848.

Mae yno ystod o gyfleusterau gan gynnwys llyfrgell, theatr a gweithdai llawn offer, ystafelloedd cerddoriaeth, cyfryngau a TG, neuadd chwaraeon a manau addysgu modern.

Mae digon o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon, ymarfer corff a mwynhau'r cyffiniau naturiol a'r diwylliant.





YR AWYR AGORED ANHYGOEL

Mae Cynefin, hafan i bobl sy'n dwlu ar yr awyr agored, 20 munud o'r campws ar droed. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhedeg trwy'r safle werdd odidog hon ac mae gan y ganolfan ardal sgiliau beiciau mynydd, trac pwmp, ardal byw yn y gwyllt, gwersyll ac Ysgol Fforest. Hefyd, mae yno fynediad uniongyrchol i'r Afon Tywi. Mae'n gartref i ardal bywyd gwyllt enfawr a, gyda chymorth yr Ymddiriedolaeth Coetiroedd, rydym wedi plannu'n agos i 1,000 o goed ar y safle.




CELFYDDYDAU A DIWYLLIANT

Mae dramâu, perfformiadau cerddorol, sgrinio ffilmau, sgysysia ac arddangosfeydd ymhlith yr adloniant a'r cyfleoedd diwylliannol ar y campws.



EFALLAI YR HOFFECH FOD YN RHAN O GYNULLEIDFA STIWDIO FYW?

Mae S4C wedi ail-leoli ei phencadlys i gampws Caerfyrddin. Mae Canolfan S4C Yr Egin, sef cartref newydd y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, yn ganolfan diwydiannau creadigol ar gyfer yr ardal. Yma, caiff ein myfyrwyr gyfle i fynd ar brofiad gwaith a chael swyddi yng nghanol bwrlwm lleoliad sydd hefyd yn darparu rhaglen o ddigwyddiadau.



LLAMBED



DATHLWCH EIN 200 MLYNEDD GYNTAF GYDA NI.

Mae campws hanesyddol Llanbedd yn gartref i sefydliad Addysg Uwch cyntaf Cymru, a sefydlwyd yn 1822. Bellach mae'n cyfuno traddodiad academaidd nodedig gyda'r holl gyfleusterau a thechnoleg modern sydd eu hangen i ddysgu yn yr 21ain ganrif.



Wedi'i osod mewn lleoliad gwledig eidylog, mae campws Llambled yn darparu profiad myfyriwr cefnogol mewn amgylchedd cymuned glos.

Fe welwch fod dros 30 o glybiau a chymdeithasau yma i ymuno â nhw a chyfleoedd i greu eich rhai eich hunain. Mae neuadd chwaraeon yno a champfa yn ogystal â chyrtiau tennis, caeau criced, pêl-droed a rygbi.

"Yr peth rwy'n ei garu fwyaf am Llambled yw'r gymuned glos rydym yn byw ynddi a'r campws gwyrdd hardd – rwy'n caru eistedd wrth yr afon i astudio yn yr haf."

Jess Plunkett
BA Gwareiddiadau Hynafol



A WYDDOCH CHI MAI LLAMBLED YW MAN GENI RYGBI CYSTADLEUOL YNG NGHYMRU?

Mae Llyfrgell a Chasgliadau Arbennig ac Archifau Roderic Bowen, gyda'i gilydd, yn dal rhyw 275,000 o gyfrolau argraffedig. Yng Nghasgliadau Arbennig ac Archifau'r Drindod Dewi Sant mae llyfrau argraffedig, llawysgrifau ac archifau hynaf y Brifysgol a hon yw un o brif ffynonellau ymchwil academiaidd Cymru.

Dim ond ychydig gamau o'r campws gwyrdd hardd hwn mae siopau, caffis, bwytai a thafarndai yn y dref farchnad fywiog. Mae Bannau Brycheiniog, traethau hardd a threfi arfordirol o fewn cyrraedd taith fer mewn car.



CAERDYDD

Mae canolfannau dysgu Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant Caerdydd yn cynnig addysg celfyddydau perfformio arbenigol ym mhrifddinas fywiog Cymru.



Wales
International
Academy
of Voice



**DYSGWCH
RAGOR**

[www.ydds.ac.uk/
cy/wiav](http://www.ydds.ac.uk/cy/wiav)

Mae Academi Llais Ryngwladol Cymru (WIAV) yn ganolfan addysg perfformio lleisiol gyffrous, sy'n falch o'i chymysgedd o staff a hyfforddwyr rhyngwladol, academaidd a diwydiant-seiliedig. Mae'r tenor byd-enwog Dennis O'Neill a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi dod at ei gilydd i roi hyfforddiant o'r radd flaenaf i fyfyrwyr.

Mae WIAV yn amgylchedd arbenigol ac unigryw ar gyfer nifer fach o gantorion a chyfeilyddion eithriadol sydd ar ddechrau eu gyrfa broffesiynol.

Yn 2015 sefydlwyd **Canolfan Berfformio Cymru (CBC)** i gynnig astudiaethau perfformio trwy gyfrwng y Gymraeg. Bellach, mae CBC hefyd yn cynnig rhaglenni cyfrwng

Saesneg. Mae'r graddau arloesol a heriol hyn yn cynnig hyfforddiant i safon y diwydiant ochr yn ochr â phrofiadau perthnasol i baratoi myfyrwyr at yrfa yn y celfyddydau.

**Canolfan
Berfformio
Cymru**

**DYSGWCH
RAGOR**

[www.ydds.ac.uk/
cy/cbc](http://www.ydds.ac.uk/cy/cbc)

LLUNDAIN

Mae Llundain yn cynnig cyfleoedd unigryw ar gyfer astudio, gweithio, hamddena a theithio. Mae astudio yma'n rhoi'r cyfle i chi archwilio a phrofi addysg yn un o ddinasoedd mwyaf bywiog a deinamig y byd.

Agorodd y Brifysgol ei champws yn Llundain ym mis Mawrth 2012. Caiff myfyrwyr eu haddysgu gan dîm o staff profiadol mewn amgylchedd proffesiynol. Ein nod yw galluogi myfyrwyr i gyflawni eu huchelgeisiau gyrfaal a goliau personol mewn lleoliad dysgu bywiog, cynhwysol.

Mae'r awyrgylch croesawgar a chefnogol yn sicrhau, beth bynnag bo'u cefndir, bod myfyrwyr yn ymddiddori a chysylltiedig ac yn teimlo'n rhan o'r Brifysgol.



**DYSGWCH
RAGOR**

uwtsdlondon.ac.uk



Mae'r Drindod Dewi Sant Birmingham, ein canolfannau dysgu ar Stratford Road yng nghymdogaeth fywiog Sparkhill, ac yng nghanol dinas Birmingham yn darparu cyfleoedd i bobl o bob cefndir astudio rhaglen addysgu uwch yn eu cymuned.

**DYSGWCH
RAGOR**

[uwtsd.ac.uk/
birmingham](http://uwtsd.ac.uk/birmingham)



Ers agor, Sparkhill ym mis Mawrth 2018 a Chanolfan Quay Place yn 2020, mae canolfannau YDDS Birmingham wedi datblygu'n fannau dysgu ffyniannus lle gall myfyrwyr ddysgu sgiliau newydd ar gyfer y gweithle, datblygu eu sgiliau, magu hyder a chwrdd ag eraill â nodau tebyg.

Maent yn amgylcheddau cyfeillgar a bywiog a'n nod yno yw cynorthwyo ein myfyrwyr wrth iddynt ddatblygu eu potensial yn llawn.

BIRMINGHAM

“

Dewisais astudio yn Y Drindod Dewi Sant oherwydd yr ystod eang o gyfleusterau sydd ar gael, y lle stiwdio yn yr adran Dylunio Patrwm Arwyneb ar gyfer pob myfyriwr, a faint o amser cyswllt a gaiff myfyrwyr gyda thiworiaid pob wythnos.

Fran Dixon

Dylunio Patrwm Arwyneb

”



LLETY

Os ydych yn bwriadu byw oddi cartref tra byddwch yn y Brifysgol, mae'n debyg bod llety ar frig eich rhestr o ystiriaethau. Mae gan bob un o'n prif gampysau 'neuaddau' neu lety myfyrwyr ar y safle, ac mae llawer o'r ystafelloedd hyn wedi eu blaenoriaethu ar gyfer myfyrwyr y flwyddyn gyntaf.



- Mae gennym ystod o wahanol fathau o lety, sydd i gyd yn cynnig 'cartref oddi cartref' saff a digel wrth i chi astudio.
- Mae byw mewn neuadd breswyl yn eich rhoi yng nghalon bywyd myfyrwyr, ac mae myfyrwyr ein llety'n elwa o ystod eang o wasanaethau ar y campws.
- Hefyd, mae digonedd o opsiynau o ran llety i'w rentu'n breifat os yw'n well gennych, naill ai mewn neuaddau myfyrwyr a redir yn breifat neu mewn llety i'w rentu'n breifat.



WHATUNI?
STUDENT
CHOICE
Awards
2020

ENILLYDD
LLETY

1^{af} YN Y DU

am Lety yng Ngwobrau Whatuni
Student Choice 2020.



**DYSGWCH
RAGOR**

[www.ydds.ac.uk/
cy/llety/](http://www.ydds.ac.uk/cy/llety/)



“

Roeddwn yn llawn cyffro pan glywais fy mod wedi ennill gwobr Norah Isaac. Rwyf wedi cael profiadau gwych wrth astudio'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, a heb os, buaswn yn annog eraill i edrych ar y cyrsiau Cymraeg, yn ogystal â chymryd rhan yn y gweithgareddau Cymraeg yn y Brifysgol.

Guto Morgans

BSc Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
(Ffitrwydd Awyr Agored)

”



Lles a CHYMORTH

Rydym ni am i'n myfyrwyr gael y profiad gorau posibl yn y brifysgol, felly mae'r Drindod Dewi Sant yn canolbwyntio ar eich helpu i gyrraedd eich potensial llawn gyda gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, cymorth ymarferol ac emosiynol o ansawdd uchel.



Mae ein Hwb Myfyrwyr newydd yn dod ag ystod o wasanaethau at ei gilydd i ddarparu 'siop un stop' i ymdrin ag ymholiadau a phroblemau. Ceir Hwb Myfyrwyr ar bob campws lle byddwch yn gallu cyrchu'r holl wybodaeth a chymorth y bydd arnoch eu hangen i elwa'n llawn ar eich amser yn Y Drindod Dewi Sant, gan ddarparu gwasanaeth gwybodaeth cynhwysfawr i fyfyrwyr ar bob mater sy'n berthnasol i fyfyrwyr.

Mae'n hawdd ffeindio eich ffordd trwy ein bwrdd dangos digidol, Hwb Y Drindod Dewi Sant, ac mae'n llawn canllawiau defnyddiol fel y gallwch gyrchu'r holl wybodaeth y mae arnoch ei hangen ar gyfer eich astudiaethau a bywyd Prifysgol.



Mae eich lles chi a lles cenedlaethau'r dyfodol yn bwysig i ni. Mae lles y dyfodol yn rhan annatod o holl ddysgu, addysgu, cyrsiau, campysau, cymuned a diwylliant Y Drindod Dewi Sant. Mae hyn yn cefnogi ein hymrwymiad i sicrhau bod graddedigion y dyfodol yn ymwybodol o faterion bydeang ac yn ddinasyddion cyfrifol yn yr 21ain ganrif. Pa bynnag gyngor, gwybodaeth neu gefnogaeth sydd ei eisiau arnoch, bydd ein staff yn gwneud eu gorau i'ch helpu.

- Cymorth Dysgu
- Cofrestru
- Cyfleusterau Campws

- Iechyd a lles
- Llety
- Pobl sy'n Gadael Gofal
- Gofalwyr
- Gyrfaoedd
- Caplaniaeth, Capeli ac Ystafelloedd Gweddi
- Gofal plant
- Cymorth i Fyfywrwyr Rhyngwladol
- Cwmsela ac Iechyd Meddwl
- Cymorth a Chyngor Ariannol
- Dychwelyd i Astudio ac Astudio'n Rhan Amser

Am ragor o wybodaeth, ewch i: ydds.ac.uk/cy/gwasanaethau-myfyrwyr



LLYFRAU A THU HWNT

RYDYM YN CARU LLYFRAU.

Rydym ni'n Brifysgol. Bydd gennych fynediad at lyfrau, ar y campws ac oddi arno. Mae'r gwasanaeth Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu (LIAD) yn llawer mwy na hyn.

Mae'r LIAD yn cefnogi a chyfoethogi gweithgareddau dysgu, addysgu ac ymchwil staff

a myfyrwyr ar draws y Brifysgol. Mae ein llyfrgelloedd yng Nghaerfyrddin, Llambled, Llundain ac Abertawe, yn darparu mynediad at amrywiaeth o ofodau dysgu hyblyg a chroesawgar. Mae'r LIAD yn darparu mynediad at filoedd o gyfnodolion ac e-lyfrau ar-lein, yn ogystal â chymorth llythrennedd ddigidol a gwybodaeth arbenigol, cymorth ymchwil a chasgliadau ac archifau arbennig.

LLYFRGELL AR-LEIN

Mae gan y LIAD gasgliad helaeth o e-gyfnodolion ac e-lyfrau y gellir eu cyrchu drwy'r dydd a'r nos, 365 diwrnod y flwyddyn, o unrhyw le yn y byd.

DATBLYGU SGILIAU

Bydd myfyrwyr newydd yn cael sesiwn Sgiliau Sylfaenol a Chyfeirnoddi yn ystod y tymor cyntaf, wedi'i ddilyn gan sesiynau manylach trwy gydol eu hastudiaethau. Hefyd, mae Llyfrgellwyr Cyswllt Academaidd yn darparu rhaglen InfoSkills ehangach. Gellir darparu cymorth wyneb yn wyneb neu o bell; drwy e-bost, dros y ffôn neu dros Skype.

CASGLIADAU AC ARCHIFAU ARBENNIG

Mae'r LIAD yn gartref i Gasgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, gan gynnwys llyfrau, llawysgrifau ac archifau printiedig hynaf y Brifysgol. Mae'r Casgliadau Arbennig yn cynnwys dros 35,000 darn o waith printiedig, wyth llawysgrif ganoloesol, tua 100 llawysgrif ôl-ganoloesol, a 69 Incwnabwla.



Y Fforwm, SA1 Glannau Abertawe



MANNAU DYSGU

Mae'r llyfrgelloedd ar bob un o'r prif safleoedd yn darparu manau modern a hyblyg, gan adlewyrchu'r ffordd mae myfyrwyr yn gweithio, yn ogystal â chyfleusterau TG, rhyngwyd diwifr, cyfleusterau llungopïo ac argraffu a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Er bod pob llyfrgell yn darparu adnoddau'n bennaf ar gyfer gofynion yr ysgol neu Athrofa sydd wedi'i lleoli yno, mae croeso i fyfyrwyr ddefnyddio bob un.



CYNIGION TG UNIGRYW

Mae ein tîm TG pwrpasol yn darparu nifer o wasanaethau i fyfyrwyr ar draws holl Ganolfannau Adnoddau Dysgu'r Brifysgol yn ogystal ag ystafelloedd cyfrifiaduron penodol.

Mae gan holl fyfyrwyr Y Drindod Dewi Sant fynediad at Microsoft Teams, sy'n eich galluogi i ymuno â, neu greu eich Tîm eich hun gydag eraill, gan helpu i wella cyfathrebu a chydweithio.

- Cydweithio
- Sgwrs grŵp
- Rhith-gyfarfod ar-lein
- Rhannu sgrîn
- Galwadau sain
- Cymorth gydag aseiniadau

EDRYCHWCH AR
EIN HADNODDAU
TG UNIGRYW



Office 365

Meddalwedd
Arbenigol

Cyrchych y meddalwedd arbenigol diweddaraf ar gyfer eich cwrs AM DDIM neu gyda GOSTYNGIAD

Lawrlwythwch Office 365 AM DDIM sy'n cynnwys Microsoft Word



Caledwedd
gyda Gostyngiad

Edrychwch ar ein cynigion unigryw a gostyngiadau ar galedwedd

Am ragor o wybodaeth, ewch i:
ydds.ac.uk/cy/bargeinion-tg/



SIARAD
EICH

iaith

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant mewn ardal sy'n naturiol ddwyieithog, lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cyd-fyw yn hapus.

Cyflwynir y rhan fwyaf o'n rhaglenni drwy gyfrwng y Saesneg, ond rydym hefyd yn cynnig nifer o gysiau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Mae

digon o gyfleoedd yma ichi wella'ch Cymraeg neu i fynd ati i ddysgu'r iaith.

Mae'r Brifysgol yn falch o'i chanolfan iaith sy'n darparu ystod o wasanaethau sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg. Mae Rhagoriaith yn hwyluso a chynnig hyfforddiant iaith yn fasnachol ac yn fewnol i staff a myfyrwyr, felly mae help ar gael o hyd!



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol



Undeb Myfyrwyr PCYDDS



- Yn annibynnol ar y Brifysgol
- Yn gweithio i chi, y myfyrwyr
- Rydych yn aelod yn awtomatig wrth i chi gofrestru

✉ uwtsdunion@uwtsd.ac.uk

   [UWTSUnion](#)



**Elusen yw Undeb Myfyrwyr
Y Drindod Dewi Sant (TSDSU)
a redir gan gynrychiolwyr a
etholir gan y myfyrwyr sy'n
gweithio i wneud yn siŵr
eich bod yn cael y profiad
Prifysgol gorau posibl yma
yn Y Drindod Dewi Sant.**

Ein gweithgareddau myfyrwyr yw canolbwynt bywyd myfyrwyr sy'n cynnwys adloniant, clybiau chwaraeon, cymdeithasau a phrosiectau gwirfoddoli. Rydym yn rhoi'r lle ichi wneud ffrindiau.

Yn gymdeithasol, corfforol, meddyliol neu'n academiaidd, mae angen ychydig o gymorth neu gyngor annibynnol ar bawb o bryd i'w gilydd. Mae TSDSU yn gwneud yn siŵr bod help ar gael a'i fod yn hygyrch.

Gyda'n gilydd rydym yn eich helpu i newid pethau sy'n effeithio arnoch chi. Rydym yn mynd i'r

afael â rheolau a pholisïau lle nad ydynt yn gweithio. Rydym yn gwneud yn siŵr bod cyllid yn mynd lle'r ydych chi ei eisïau a'i angen.

Rydym yn cefnogi myfyrwyr i fod yn gynrychiolwyr cwrs a gwneud gwelliannau. Unwaith y flwyddyn, mae myfyrwyr yn ethol swyddogion i weithio'n llawn amser i TSDSU.

Y swyddogion hyn sy'n arwain cyfeiriad hir dymor Undeb y Myfyrwyr, gan wneud yn siŵr ein bod yn mynd i'r afael â'r materion pwysicaf i'n myfyrwyr - ariannu, costau byw, ansawdd yr addysgu ac ati - ar draws nifer o flynyddoedd. Gallwch leisio'ch barn drwy ethol eich cynrychiolwyr a chyfrannu at gyngor myfyrwyr TSDSU.

**DYSGWCH
RAGOR**

www.uwtsdunion.co.uk



CYMRU RYFEDDOL

ARFORDIR, GWLAD a DIWYLLIANT

**Mae mwy i Gymru
na thirluniau
naturiol godidog.**

Oes, mae gan Gymru **mwy na 600 o gestyll** – mwy fesul arwynebedd nag unman yn y byd, ond mae Gymru hefyd yn cynnig llu o anturiaethau a gweithgareddau i unrhyw un sy'n dewis astudio yma.

Bydd croeso cynnes Cymreig ar bob un o'n campysau bob tro. Felly, p'un a ydych am fod yn agos i'r arfordir, y wlad neu'r ddinas, bydd gennych ddigonedd o ddewis yn Y Drindod Dewi Sant.

**NI CHAFODD BANER
GENEDLAETHOL CYMRU
EI DADORCHUDDIO'N
SWYDDOGOL NES**

1959!





ERYRI YW
COPA UCHAF
CYMRU, SEF

1,085M



helo!

**SIAREDIR YR IAITH
GYMRAEG GAN DRI
CHWARTER MILIWN
O BOBL – Y RHAN
FWYAF YNG NGHYMRU,
OND HEFYD YN
LLOEGR, UDA, CANADA
A'R ARIANNIN.**

shw'mae!

... aeddech chi'n gwybod ...

“

Syrthiais mewn cariad gyda'r golygfeydd a maint y lle ar unwaith. Dydw i ddim yn hoff o dorfeydd o bobl felly roedd maint y campws yn berffaith i mi. Mae fy amser yma wedi bod yn anhygoel ac rwyf wedi dysgu cymaint. Rwyf wedi cael cymaint o gyfleoedd yn rhan o fy nghwrs, o allu edrych ar lawysgrifau canoloesol yn ein harchifau yn ystod wythnosau cyntaf fy ngradd, i fodylau archaeoleg hynod o arbenigol a gwaith maes. Ni fyddai'r modylau cystal o bell ffordd oni bai am y staff academiaidd rhagorol sy'n barod i'ch helpu bob tro os byddwch chi'n straffaglu. Mae ganddynt bolisi drws agored, sy'n golygu os yw'r drws ar agor, gallwch fynd i'w gweld nhw gyda pha bynnag broblemau sy'n eich poeni, boed yn academiaidd neu'n bersonol. Rwyf wedi mwynhau fy amser yn Llambod yn enfawr, a dyna pam rwyf am barhau i astudio yma yn fyfyrwr graddedig.

Matt Cowley

BA Archaeoleg ac Astudiaethau Canoloesol

”



Prifysgol Cymru
y Ddirnol Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



MATERION ARIANNOL

Yn y brifysgol gallwch ddewis dysgu pwnc rydych wir yn ei garu, ennill cymhwyster a fydd yn eich arwain at eich dewis yrfa, ehangu eich gorwelion ac agor drysau i lawer o swyddi sy'n gofyn bod gan ymgeiswyr radd. Mae'n fuddsoddiad yn eich dyfodol.



BETH FYDD COST FY NGHWR'S?

Ar hyn o bryd, mae'r ffioedd ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn £9,000 y flwyddyn i fyfyrwyr llawn amser y DU/UE ar gyfer ein cyrsiau israddedig.

FAINT MAE'N EI GOSTIO?

Bydd gennych ddau brif fath o draul – **ffioedd a chostau byw**. Mae help ar gael i chi gan y llywodraeth gyda'r ddau. Bydd y swm byddwch yn ei dderbyn yn dibynnu ar incwm eich teulu ac ymhle y byddwch chi'n astudio. Er enghraifft, ers mis Medi 2018 mae pob myfyriwr cymwys sy'n byw yng Nghymru ac yn dechrau cwrs prifysgol wedi cael cymorth ar gyfer costau byw, ar ffurf cyfuniad o grantiau a benthyciadau. Bydd y rhan fwyaf yn cael cymorth sy'n gyfwerth â'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Bydd myfyrwyr sydd ag incwm aelwyd cymharol isel, yn cael rhan fwyaf y cymorth sydd ar gael ar gyfer costau byw ar ffurf grant. Ni fydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn talu dim o flaen llaw ac ni fydd yn rhaid talu'r arian yn ôl tan eu bod yn ennill dros £25,725 y flwyddyn fel person â gradd. Cewch wybodaeth sy'n berthnasol i ble rydych chi'n byw trwy'r dolenni ar ein gwefan.



Dysgwch ragor: www.ydds.ac.uk/cy/cyllid-myfyrwyr

YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAU

Os byddech chi'n elwa o astudio yn Y Drindod Dewi Sant, rydym am i chi gael y cyfle i ymuno â ni, felly rydym yn cynnig ystod eang o ysgoloriaethau a bwrsariau a gynlluniwyd i helpu gyda chostau ychwanegol astudio a byw.

Mae amrywiaeth o ddyfarniadau ar gael. Mae rhai dyfarniadau'n benodol ar gyfer y cwrs, ac mae eraill wedi'u cynllunio i gefnogi datblygiad sgiliau ychwanegol a chyflogadwyedd. Mae dyfarniadau hefyd wedi'u cynllunio i helpu grwpiau penodol, fel myfyrwyr sy'n rhieni a phobl sy'n gadael gofal, i gyrchu addysg.

Os oes gennych ddiddordeb mewn astudio gyda'r Drindod Dewi Sant, ewch i'n gwefan fel na fyddwch yn colli allan. Cofiwch, gallwch gysylltu â ni gydag unrhyw ymholiadau.

YSGOLORIAETHAU'R COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Mae'r **Brif Ysgoloriaeth** werth £1,000 y flwyddyn (neu £3,000 dros dair blynedd) ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n bwriadu astudio o leiaf 66% (neu 80 credyd y flwyddyn) o'u gradd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r **Ysgoloriaeth Cymhelliant** werth £500 y flwyddyn (neu £1,500 dros dair blynedd) ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n bwriadu astudio o leiaf 33% (neu 40 credyd y flwyddyn) o'u gradd drwy gyfrwng y Gymraeg.



**DYSGWCH
RAGOR**

[www.ydds.ac.uk/
cy/bwrsariaethau](http://www.ydds.ac.uk/cy/bwrsariaethau)



DOD O HYD I'R CWRS IAWN

BETH A ALLWCH CHI EI WNEUD I DDOD O HYD I'R CWRS IAWN AR EICH CYFER CHI?

- **Meddylwch am beth yr hoffech chi ei wneud.** Beth sy'n eich cyffroi? Beth ydych chi'n ei astudio sy'n eich gwneud yn hapus? Os nad ydych chi'n hoffi pwnc, pam fyddech chi'n ei ddewis?
 - **Mae ymchwil yn hanfodol.** Darganfyddwch beth yn union mae'r cwrs yn ei gynnwys.
 - **Oes gennych chi yrfa mewn golwg?** Sut bydd eich cwrs yn eich helpu i gyrraedd yno? Dysgwch ragor am yr hyn y mae'r Brifysgol yn ei gynnig tu hwnt i'r cwrs sy'n cefnogi eich gofiau.
 - **Beth yw hyd y cwrs?** Ydych chi angen i'r cwrs weithio o gwmpas swydd, teulu neu ymrwymadau eraill?
 - **Arholiadau.** Nid oes dim arholiadau ar rai cyrsiau. Pa fath o asesiad fyddai orau i chi?
 - **Mae opsiynau astudio dramor yn rhoi'r cyfle i chi gael y gorau o'r ddau fyd.** A hoffech chi gael semester dramor?
 - **Gall lleoliadau fod yn rhan bwysig o gwrs.** Hoffech chi gael blas ar weithio yn eich dewis faes?
 - **Pa mor fawr ydy'r dosbarthiadau?** Ystyriwch lefel y sylw a'r gefnogaeth sydd ei eisiau neu ei angen arnoch.
 - **Pa gymwysterau sydd eu hangen?** Efallai y gallwch gael lle ar eich dewis gwrs oherwydd eich profiad.
 - **Pa sgiliau trosglwyddadwy y byddwch yn eu datblygu?** A fydd eich cwrs yn eich paratoi at ddysgu rhagor?
- Prifysgol yw eich amser i archwilio, dysgu a datblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau. Sut ydych chi am elwa o'ch profiad astudio? Gall ymweld â'r brifysgol yn ystod diwrnod agored, neu gyfle arall i gwrrdd â staff a myfyrwyr eraill, eich helpu i wneud eich penderfyniad.

**DYSGWCH
RAGOR**

[www.ydds.ac.uk/
cy/ymweld](http://www.ydds.ac.uk/cy/ymweld)

DEFNYDDIO'R CANLLAW HWN

MANNAU CYCHWYN A DEWISIADAU

Gadewch i ni wybod beth rydych wedi'i wneud yn barod fel y gallwn ddweud wrthyhych beth allech chi ei wneud nesaf. Os byddwch yn gweld cwrs sy'n apelio atoch chi ond dydych chi ddim yn meddwl bod gennych y cymwysterau neu brofiad blaenorol iawn i gael lle, peidiwch ag anobeithio; cysylltwch â ni.

Mae cyrsiau ar gael sy'n gallu eich helpu i mewn i addysg uwch. Mae llawer o bynciau'n cynnig TystAU, HNC, HND neu Flwyddyn Sylfaen. Rydym am eich helpu i ddod o hyd i gwrs a fydd yn eich rhoi ar y trywydd iawn i lwyddo.

Cyrhaeddwch eich potensial gyda ni. Dysgwch ragor am ein holl raglenni, gan gynnwys rhai ôl-raddedig a TAR, drwy ymweld â'n gwefan:
www.ydds.ac.uk/cy/cyrsiau

CLYSTYRAU A RHESTRAU

Rydym am ei wneud yn hawdd i chi ddod o hyd i'r cwrs israddedig iawn i chi. Efallai fod gennych syniad am y maes yr hoffech ei astudio, ond nid yr union gwrs. Efallai mai'r cwbl sydd ei angen arnoch yw rhestr er mwyn dod o hyd i'r teitl. Mae gennym glystyrau, sef grwpiau o gyrsiau, a rhestr yn nhrefn yr wyddor o gyrsiau israddedig. Porwch neu chwiliwch y rhain fel y mynnwch.

- Mae'r clystyrau'n dechrau ar dudalen **54**
- Mae rhestrau'n dechrau ar dudalen **66**


GRADDAU A PHRENTISIAETHAU UWCH

Mae'r mathau newydd hyn o ddyfarniad yn cynnig llwybr at gymwysterau cydnabyddedig a chymhwysedd proffesiynol, ar y cyd â phrofiad ymarferol wrth eich gwaith. Mae prentisiaethau'n cynnig cyfle i ennill arian wrth ichi ddysgu. I ddilyn rhaglen Brentisiaeth, bydd angen i chi fod mewn swydd. Efallai y byddwn yn gallu dweud wrthyhych am gyflogwyr sy'n dymuno recriwtio ond byddem hefyd yn eich cynghori i wneud cais i gyflogwyr eraill yn eich dewis faes.

Dysgwch ragor:
www.ydds.ac.uk/cy/prentisiaethau

CLYSTYRAU PWNC




ALLWEDD LLEOLIADAU:























Amgylchedd	Cod UCAS	Pwyntiau Mynediad
BSc Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Newid yn yr Hinsawdd ^o	SCC1	96
TystAU Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (Ffrwd Amgylcheddol) (STEM)	STE1	32

Anthropoleg a Datblygu Rhyngwladol	Cod UCAS	Pwyntiau Mynediad
BA Anthropoleg ^{s+}	L600	96
BA Datblygiad Rhyngwladol a Gwleidyddiaeth Fyd-eang ^s	IDG1	96

Astudiaethau Cymdeithasol	Cod UCAS	Pwyntiau Mynediad
BA Cymdeithaseg ^o	CYG1	80
BA Cymdeithaseg ^o	SOC1	80
BA Eiriolaeth	ITH1	80
BA Eiriolaeth ^o	6X7S	80
TystAU Gwyddorau Cymdeithasol	SLS1	32

Astudiaethau Tsieineaid	Cod UCAS	Pwyntiau Mynediad	
BA Astudiaethau Tsieineaid ^{S +}	5DN2	96	
BA Sinoleg	SI01	80	

Athroniaeth a Chelfyddydau Breiniol	Cod UCAS	Pwyntiau Mynediad	
BA Athroniaeth ^{S +}	V502	96	
BA Celfyddydau Breiniol ^S	HU01	96	

Blynyddoedd Cynnar, Astudiaethau Addysg, Ieuencid ac Addysgu...	Cod UCAS	Pwyntiau Mynediad	
BA Addysg a Gofal Blynyddoedd Cynnar ^{0 2 Flynedd} 	8Q18	88	★
BA Addysg a Gofal Blynyddoedd Cynnar ^{2 Flynedd} 	87B2	88	★
BA Addysg a Gofal Blynyddoedd Cynnar ⁰ 	M5Y2	88	★
BA Addysg a Gofal Blynyddoedd Cynnar ⁰ 	95X7	88	★
BA Addysg a Gofal Blynyddoedd Cynnar: Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar ^{0 2 Flynedd} 	YBC2	88	★
BA Addysg a Gofal Blynyddoedd Cynnar: Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar ^{0 2 Flynedd} 	YPR2	88	★
BA Addysg a Gofal Blynyddoedd Cynnar: Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar ⁰ 	YBC1	88	★
BA Addysg a Gofal Blynyddoedd Cynnar: Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar ⁰ 	YPS1	88	★
BA Addysg Gynradd gyda SAC 	X123	115	
BA Addysg Gynradd gyda SAC 	X120	115	
BA Astudiaethau Addysg 	X300	96	
BA Astudiaethau Addysg: Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant 	X364	88	

...Blynyddoedd Cynnar, Astudiaethau Addysg, Ieuencid ac Addysgu

	Cod UCAS	Pwyntiau Mynediad	
BA Astudiaethau Addysg: Cynradd	14F3	80	
BA Astudiaethau Addysg: Cynradd	36H5	88	
BA Addysg Gynhwysol ^S	★		
BA Gwaith gyda Phobl Ifanc	WYP1	80	
BA Gwaith Ieuencid ac Addysg Gymdeithasol (Cymeradwywyd gan ETS) ^S	GIA1	80	
TystAU Sgiliau Addysgu a Hyfforddi ar gyfer Cyd-destunau Proffesiynol	---	--	-

1af yn y DU

AM FODDHAD CYFFREDINOL MYFYRWYR MEWN ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD AC IEUENCTID

1af yng Nghymru

AM FODDHAD CYFFREDINOL MYFYRWYR MEWN HYFFORDDIANT ATHRAWON























Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2019










Busnes a Rheolaeth...









	Cod UCAS	Pwyntiau Mynediad	
BA Busnes Cymhwysol (Entrepreneuriaeth)	DAE1	88	
BA Busnes Cymhwysol (Rheolaeth)	DAB1	88	
BA Busnes Cymhwysol (Marchnata)	DAM1	88	
BA Busnes a Rheolaeth ^O	227W	88	
BA Cyfrifeg ^U	N400	88	















...Busnes a Rheolaeth	Cod UCAS	Pwyntiau Mynediad
BA Rheolaeth Busnes Rhyngwladol	IBM1	88
BA Cyllid Rhyngwladol	★	
BA Rheolaeth Busnes	★	88
BA Rheolaeth Busnes ^o ^u	BMG1	96
BA Rheolaeth Menter Wledig ^o	238A	88
BA Sgiliau Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ar gyfer y Gweithle (Lefel 5&6)	★	N/A
